

FFURFLEN RHW38

**HYSBYSIAD Y LANDLORD O DERFYNU: CONTRACT
SAFONOL CYFNOD PENODOL (CONTRACT WEDI EI DROSI)**

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol cyfnod penodol (nad yw o fewn Atodlen 9B i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac a oedd yn union cyn i'r Ddeddf honno ddod i rym yn denantiaeth neu'n drwydded am gyfnod penodol) o dan baragraff 25B(2) o Atodlen 12 i'r Ddeddf honno, bod rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad penodedig.

Rhan A: Landlord
Enw:
Cyfeiriad:

Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract
Enw(au):

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad i Ildio Meddiant
<p>Yn unol â pharagraff 25B(2) o Atodlen 12 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, bod rhaid i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar [dyddiad]</p> <p>Os nad ydych chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, yn ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir uchod, caiff y landlord wneud hawliad meddiant i'r llys.</p> <p>Rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei roi cyn neu ar ddiwrnod olaf y cyfnod y gwnaed y contract meddiannaeth ar ei gyfer.</p> <p><i>Sylwer: Ni chaff y dyddiad penodedig fod:</i></p> <p><i>-Yn llai na chwe mis ar ôl y dyddiad meddiannu (gan gynnwys dyddiad meddiannu tenantiaeth neu drwydded sy'n cymryd lle tenantiaeth neu drwydded arall),</i></p> <p><i>-Cyn diwrnod olaf y cyfnod y gwnaed y contract wedi ei drosi ar ei gyfer, neu</i></p> <p><i>-Yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.</i></p>

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
.....

Canllawiau i ddeiliaid contract

Yr hysbysiad hwn yw'r cam cyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ei ddarllen yn ofalus iawn. Os na fyddwch yn ildio meddiant erbyn y dyddiad a roddir yn Rhan D, caiff eich landlord wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant.

Os oes gennych unrhyw amheuon neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn gyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gyngori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

Cyfyngiadau ar roi'r hysbysiad hwn

Torri rhwymedigaethau statudol

Yn unol ag adran 186A o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ar adeg pan fo unrhyw rwymedigaethau statudol a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno wedi eu torri:

1. *Methu â darparu datganiad ysgrifenedig;*
2. *Cyfyngiad o chwe mis yn dilyn methu â darparu datganiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennir yn adran 31 (o'r Ddeddf honno);*
3. *Methu â darparu gwybodaeth;*
- 3A. *Methu â darparu tystysgrif perfformiad ynni ddilys;*
4. *Torri gofynion sicrwydd a blaendal;*
5. *Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019;*
- 5A. *Methu â sicrhau bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio wedi eu gosod;*
- 5B. *Methu â chyflenwi adroddiad ar gyflwr trydanol etc.;*
- 5C. *Methu â darparu adroddiad ar ddiogelwch nwy i ddeiliad y contract.*

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn oni chydymffurfiwyd â gofynion adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai 2004, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sydd heb drwydded yn unol â'r Ddeddf honno.